

**Ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru:
'Mesurau digartrefedd dros dro ar ôl y pandemig'**

Rydym yn falch o gael y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Ein rôl

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), rydym yn ymchwilio i gwynion a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gorff o fewn fy awdurdodaeth, sydd yn ei hanfod yn cynnwys yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cyngorau sir a chynghorau cymuned)
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion)
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai)
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrrff nodedig.

Gallwn ystyried cwynion am ofal cymdeithasol a drefnwyd yn breifat neu ofal cymdeithasol a ariennir, yn ogystal â gwasanaethau gofal lliniarol ac, o dan amgylchiadau penodol, agweddau ar ofal iechyd a ariennir yn breifat.

Rydym hefyd yn ymchwilio i gwynion bod aelodau etholedig awdurdodau lleol wedi torri eu Codau Ymddygiad, sy'n nodi'r egwyddorion ymddygiad cydnabyddedig y dylai aelodau eu dilyn mewn bywyd cyhoeddus.

Bydd y pwerau ymchwilio ar ei liwt ei hun a roddwyd inni o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Deddf OGCC 2019) yn ein caniatáu i ymchwilio pan fydd tystiolaeth yn awgrymu y gall fod methiannau systematig, hyd yn oed os nad yw defnyddwyr gwasanaeth eu hunain yn codi cwynion. Sefydlodd y Ddeddf hefyd yr Awdurdod Safonau Cwynion (CSA) i ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi ymdrin â chwynion yn effeithiol gan ddefnyddio gweithdrefnau enghreiffiol, hyfforddiant a casglu a chyhoeddi data.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â pholisi Llywodraeth Cymru i sicrhau 'nad oes neb yn cael eu gadael allan'?

Ydym.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno bod ychwanegu 'person sy'n cysgu allan' fel yr 11eg categori o Angen Blaenoriaethol yn ein galluogi i barhau gyda'n polisi i sicrhau 'nad oes neb yn cael eu gadael allan'? Os nad ydych, sut arall y gellid cyflawni hyn?

Ydym. Byddem yn pwysleisio bod angen cefnogi unrhyw newidiadau i'r categori Angen Blaenoriaethol gyda gwybodaeth ac arweiniad clir i staff ac asiantaethau Awdurdodau Lleol sy'n cefnogi unigolion sydd angen llety. Dylai'r wybodaeth a'r canllawiau hyn hefyd gyrraedd y bobl sy'n cysgu ar y stryd yn uniongyrchol i'w galluogi i elwa ar ehangu'r categori Angen Blaenoriaethol.

Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno â'r diffiniad o 'person sy'n cysgu allan' y bwriadwn ei ddefnyddio? Os nad ydych, rhowch reswm dros eich ateb.

Er eglurder, rydym yn awgrymu bod y diffiniad yn esbonio'r term 'bashes' a bod y gwall yn y diffiniad yn cael ei gywiro (stations *or* 'bashes') (perthnasol i'r fersiwn Saesneg yn unig).

Nid yw'r diffiniad yn cynnwys pobl mewn hosteli neu lochesi. Er ein bod yn deall y rhesymau dros beidio â chynnwys y grŵp hwn yn y diffiniad, hoffem bwysleisio na ddylai cysgu mewn hostel neu loches gael ei weld fel ateb hirdymor i gysgu ar y stryd.

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno y dylid ychwanegu pwysau a achosir gan Covid-19 fel eithriad newydd o dan Erthygl 6 o Orchymyn Addasrwydd 2015? Os nad ydych, rhowch reswm dros eich ateb.

Mewn ymateb, byddem yn nodi y dylid cyfleu'r eithriad hwn yn glir i'r bobl y mae'n effeithio arnynt. Yn ystod ein hymchwiliad ar ei liwt ei hun, clywsom dystiolaeth bod pobl yn camddeall graddau'r cyngor o ran eu dyletswyddau i letya ac asesu unigolion (e.e., t. 33 o'n [hadroddiad ar ei liwt ei hun](#)). Gallai eithriadau yn y ddeddfwriaeth helpu i osgoi dryswch, ar yr amod bod canllawiau clir mewn amgylchiadau o'r fath.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'r terfyn amser o 31 Mawrth 2023 i fynd i'r afael â'r pwysau llety dros dro a achosir gan eithriad Covid-19?

Dim sylwadau

Cwestiwn 6: Pa effaith ydych chi'n ei rhag-weld ar adnoddau (er enghraifft staffio)?
A oes gennych dystiolaeth i gefnogi hyn?

Ni fyddai'n briodol i ni wneud sylwadau ar gwestiynau adnoddau manwl. Fodd bynnag, gallwn dynnu sylw at y dystiolaeth berthnasol a gasglom yn ystod ein hymchwiliad ar ei liwt ei hun (e.e., t. 30 o'n [hadroddiad ar ei liwt ei hun](#)) lle'r oedd adnoddau staff dan bwysau yn ystod y pandemig, gyda'r cynnydd yn y galw am asesiadau digartrefedd a gwaith achos mwy cymhleth. Gallai'r cynigion ychwanegu at y pwysau hyn, a bydd angen i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol gynllunio ar gyfer goblygiadau adnoddau yn unol â hynny.

Sylwadau cloi

Hyderwn y bydd y sylwadau hyn yn ddefnyddiol i chi. Os dymunwch drafod unrhyw un o'r pwyntiau a wneuthum, mae croeso i chi gysylltu ag Ania Rolewska, ein Pennaeth Polisi (ania.rolewska@ombudsman.wales).

MM Morris.

Michelle Morris

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mehfin 2022